



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mr Colin Everett
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NN

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Medi 2011

Annwyl Mr Everett,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas a hysbysiad bod yr
Adolygiad ar ben**

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddwyd i ymateb i'm cais. Mae'r ymatebion sydd wedi dod i law yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i bobl hŷn yng Nghymru. Os bydd y sefydliadau'n cymryd y camau y maen nhw wedi dweud y byddan nhw'n eu cymryd, dylid gweld gwelliant arwyddocaol ym mhrofiadau pobl hŷn yn yr ysbyty yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, gofynnais i Gyngor Sir y Fflint ymateb i Argymhelliaid 5 ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio ag ef. Os byddai'r penderfyniad yn cael ei gymryd i beidio â chymryd camau, roeddwn yn gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau. Ches i ddim ymateb yn uniongyrchol gan Gyngor Sir y Fflint ac nid oedd yn glir o ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a oedd y Cyngor wedi cymeradwyo ymateb y Bwrdd Iechyd ac felly anfonais Hysbysiad Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o


wybodaeth i'm darbwylo y byddai buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo drwy gydol y broses o ryddhau pobl hŷn o ysbytai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Ers hynny, mae ymateb Cyngor Sir y Fflint i Argymhelliad 5 wedi dod i law. Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Rwy'n fodlon ar ymateb Cyngor Sir y Fflint ac mae'n dda gen i nodi bod fy adroddiad yn un o'r pynciau allweddol yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir y Fflint ym mis Mehefin 2011.

Gan fod eich ymateb wedi bodloni fy nghais am wybodaeth a fydd yn fy narbwylo y cydymffurfir ag Argymhelliad 5, mae'r Adolygiad swyddogol fel y mae'n ymwneud â Chyngor Sir y Fflint bellach ar ben. Bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod fy argymhellion i a chynllun gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn troi'n realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio cyfarfod â chi yng ngwanwyn 2012 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud a chyfleoedd i rannu'r arferion gorau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,



Ruth Marks

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru